**Atodiad B – Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth:**
**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin â thair elfen ganlynol y Rhaglen Ailgydbwyso:

- Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth
- Cod Ymarfer Rhan 2 diwygiedig (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Mae'r Cod Ymarfer sy'n cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol, a'r Cod Rhan 2, yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (byddwn yn ei galw yn 'Ddeddf 2014' o hyn ymlaen).

Drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, ein nod yw sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a chreu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a fydd yn goruchwylio ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r Fframwaith Cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol wedi cael ei gydgynhyrchu gan aelodau Grŵp Technegol Cenedlaethol a bydd yn cael ei sefydlu drwy God Ymarfer statudol a fydd yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i blant ac i oedolion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ailgydbwyso'r sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at ansawdd a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd yn gosod egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu sydd â'r nod o leihau cymhlethdodau, hwyluso cysondeb cenedlaethol o ran arferion comisiynu ac ailgydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd ac ar ganlyniadau. Mae'n rhoi mwy o gysondeb a thryloywder yn y cylch comisiynu.

Mae datblygu a gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn rhan bwysig o'n taith tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ac mae'n rhoi rhai o'r sylfeini angenrheidiol i'w weithredu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fersiwn drafft y Cod yn ymgynghoriad 2023 y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth[1]. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol am y Fframwaith Cenedlaethol a'r cysondeb mae'n ceisio ei sicrhau mewn arferion comisiynu. Mae'r Cod drafft wedi cael ei ddiwygio ar sail ystyriaeth gynhwysfawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys awgrymiadau ar sut mae cryfhau'r egwyddorion a'r safonau ymhellach.

Cafodd y Cod drafft diwygiedig ei osod gerbron y Senedd ar 19 Mawrth ac yn amodol ar gwblhau'r cyfnod dirymu o ddeugain diwrnod, bydd yn cael ei gymeradwyo ar 19 Mai, ei gyhoeddi ar 20 Mai ac yn dilyn cyfnod gweithredu trosiannol sy'n cynnwys codi

---

[1] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer comisiynwyr gofal a chymorth awdurdodau lleol a'r GIG, mae'r Cod i fod i ddod i rym yn ddiweddarach ym mis Medi 2024. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ogystal â'r Asesiad Effaith Integredig, yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Codau wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â gosod y Cod gerbron y Senedd.

I gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith, byddwn yn sefydlu pecyn digidol cenedlaethol o ddogfennau arfer da i gefnogi comisiynwyr i gyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn y cod.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu a diweddaru'r Cod oddeutu bob 2 flynedd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arferion comisiynu cyfredol gan ddarparu canllawiau anstatudol (os oes angen) rhwng yr adolygiad ffurfiol 2 flynedd o'r Cod.

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynigion ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

**Y Fframwaith Cenedlaethol**
Roedd y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth[2] yn sefydlu'r achos dros newid sydd wedi cael ei weithredu drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Mae effaith y Fframwaith Cenedlaethol wedi cael ei phrofi drwy gydol y broses datblygu polisi, yn enwedig drwy'r ddau ymgynghoriad[3] ac yn ystod cyfarfodydd manwl Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol.

O ran hawliau plant, roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o wasanaethau plant gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau plant a chynrychiolaeth o Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Ar ben hynny, cafodd yr awgrymiadau a'r materion a godwyd yn yr ymatebion manwl i'r ymgynghoriad gan y rhanddeiliaid canlynol am gynnal a gwireddu hawliau plant eu hystyried yn benodol o ran sut dylid diwygio'r Cod drafft, yr ymgynghorwyd arno yn 2023, er mwyn cyflawni ei nodau a chefnogi a hyrwyddo a chyflawni cymaint o effaith gadarnhaol ag sy'n bosibl ar hawliau plant:

- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiynydd Plant Cymru,
- Barnardo's Cymru
- Plant yng Nghymru
- NSPCC

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad ar effaith**
Mae'r adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion yn rhoi crynodeb manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr wedi codi nifer o themâu allweddol gan gynnwys rhwystrau a allai rwystro neu lesteirio cyflawni nodau ac amcanion y Fframwaith. Mae'r rhain yn cynnwys heriau sy'n ymwneud â chyllid ac adnoddau, y gweithlu a gweithredu.

---

[2] https://www.llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth

Fodd bynnag, er bod ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd hanfodol gweithredu'r Cod yn llwyddiannus fel ffactor allweddol o ran cyflawni ei nodau a'i amcanion, yn ogystal â rhagdybio i ba raddau y byddai'r Fframwaith yn cyflawni ei nodau a faint o effaith gadarnhaol y byddai'r cod yn ei chael, gan gynnwys ar ailgydbwyso gofal a chymorth a chynnal a gwireddu hawliau, nid oeddent yn codi unrhyw effeithiau negyddol penodol neu sylweddol yng nghyswllt pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. .

Yn yr un modd, er y cynhaliwyd trafodaethau manwl ar fanylion technegol y Fframwaith yng Ngrŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol a chyfarfodydd yr is-grŵp Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg gan gynnwys ar yr effaith ar wasanaethau plant, daeth y grŵp i'r casgliad yn gyffredinol y byddai'r Fframwaith yn cael effaith gadarnhaol yn ôl y bwriad. Yn benodol, nododd y grŵp gymhlethdod a her y trawsnewid presennol mewn gwasanaethau plant a sut, dros y tymor canolig i'r tymor hir, y bydd angen i'r Fframwaith addasu a newid gyda'r datblygiadau hynny yn y farchnad darparwyr i sicrhau ei fod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Mae arferion comisiynu yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth sydd ar y lefel fwyaf sylfaenol yn cael eu dylunio a'u darparu i amddiffyn ac i ddiogelu pobl, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a phlant a phobl ifanc, gan gynnwys rhag camdriniaeth, esgeulustod, gwahaniaethu, camfanteisio a mathau eraill o niwed.

Bwriad rhoi pobl wrth galon y gwaith o ddylunio gwasanaethau yw eu grymuso i wneud penderfyniadau am eu bywydau. Ar ben hynny mae'r Cod yn mynnu bod partneriaid statudol yn cyd-werthuso gwasanaethau gofal a chymorth gyda phobl. Mae hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod modd codi a datrys unrhyw bryderon neu gwynion.

Drwy ei nodau i ailgydbwyso gofal a chymorth, bydd Cod y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i gyflawni nodau'r Ddeddf ymhellach hy rhoi pobl wrth galon y gwaith o ddylunio gwasanaethau, rhoi llais a dewis iddynt o ran sut mae'r anghenion sy'n bwysig iddynt yn cael eu diwallu i wella llesiant. Felly, rydym yn disgwyl i God y Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar bobl gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig ar y sail y bydd yn sicrhau cysondeb mewn arferion comisiynu ac felly'r nod o wella ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae'n rhaid cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth a chyhoeddi cynlluniau ardal sy'n nodi sut maent yn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaethol penodol gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae amcanion cyffredinol y Fframwaith Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Cod Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a Rhan 9 Canllawiau Statudol ar bartneriaeth[4] sy'n helpu partneriaid statudol i gyflawni'r asesiadau hyn ac felly gellir dweud bod y Fframwaith Cenedlaethol yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus yn rhoi sylw dyladwy i nodweddion gwarchodedig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Cod Rhan 2 yn mynnu bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar

[4] https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau

Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o gynnal asesiad o'r boblogaeth, sy'n gorfod cynnwys asesiadau effaith ar; Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd a Chredoau, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Safon 3: Mae defnyddio data i gyflawni canlyniadau yn y Fframwaith yn cyd-fynd â hyn ac yn ei gefnogi. Mae'n mynnu bod partneriaid statudol yn "casglu data meintiol ac ansoddol perthnasol a chywir gan gynnwys tueddiadau nawr ac yn y dyfodol i sicrhau bod comisiynu'n seiliedig ar ddata ystyrlon a sicrhau bod digon o gapasiti a gallu dadansoddol i lywio cynlluniau comisiynu cadarn". Ar ben hynny, mae'r safon hon yn mynnu bod angen ystyried nodweddion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac a allai fod angen gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys anghenion diwylliannol ac iaith, ac i benderfyniadau comisiynu ac adnoddau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y galw a ragwelir yn y dyfodol a demograffeg, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod y Fframwaith yn gallu cefnogi a hyrwyddo hawliau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac yn helpu i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Fel y nodir yn y Cod, mae gwasanaethau gofal a chymorth yn bwysig er mwyn hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol ac un o nodau comisiynu yw sicrhau hawliau pobl i allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, i gymryd rhan mewn penderfyniadau ac i gael eu cefnogi drwy eiriolaeth i'w galluogi i wneud hynny. Gan fod partneriaid statudol yn comisiynu i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan gynnwys rhoi sylw i CCUHP, mae hawliau eisoes yn sail i'r gwaith o gomisiynu.

Nod y Cod yw cryfhau hyn yng nghyd-destun comisiynu ac mae'r egwyddorion a'r safonau wedi cael eu datblygu i helpu i sicrhau bod partneriaid statudol yn gallu helpu i wireddu hawliau pobl a gwella eu canlyniadau llesiant. Drwy fynnu bod partneriaid statudol yn gwreiddio'r egwyddorion hyn yn eu harferion comisiynu ac yn cyflawni ac yn cynnal y safonau hyn, rydym yn disgwyl i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig gyda'u llais a'u rheolaeth, drwy sicrhau bod partneriaid statudol yn datblygu ffyrdd hygyrch i bobl fod wrth galon y gwaith o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys yr egwyddor ganlynol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth:

> '**Gwerth yw "yr hyn sy'n bwysig":** Mae gwerth yn fwy na chost; mae'n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy'n sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cyhoeddus yn deillio o gyflawni'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldebau, hawliau dynol, ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.'

Bwriad yr egwyddor hon yw bod partneriaid statudol yn caffael gwasanaethau nid yn unig ar sail cost ond eu bod yn ystyried elfennau ehangach (a'r egwyddorion a'r safonau eraill) y bydd yn helpu i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldebau a hawliau dynol gan gynnwys hawliau plant a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Cod hefyd yn cynnwys yr egwyddor ganlynol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth:

‘**Cynllunio ar gyfer yr angen presennol ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol:** Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio’n gofyn am ragolygon, a dylai’r ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 y Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymiadau carbon).’

Bwriad yr egwyddor hon yw y bydd mynnu bod comisiynwyr yn cael gwell dealltwriaeth o’r galw yn y dyfodol yn helpu i gefnogi hawliau pobl drwy sicrhau bod y gwasanaethau cywir mewn lle ar gyfer y galw yn y dyfodol, gan gynnwys y galw yng nghyswllt pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Dylai sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu’n iawn i bobl gyflawni’r fantais a fwriedir sef atal yr angen am wasanaethau yn y dyfodol.

Yn yr un modd, mae nifer o’r safonau yn y Fframwaith yn ceisio cefnogi a hyrwyddo hawliau pobl, gan gynnwys:

- **Safon 1:** Disgwylir y bydd **gwreiddio gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf yn yr holl weithgareddau comisiynu** drwy gefnogi nodau’r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo a gwireddu hawliau pobl, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae’r Cod yn ailadrodd pwysigrwydd deall anghenion y boblogaeth drwy asesiadau o anghenion y boblogaeth ac mae’n cyd-fynd â’r codau sy’n rhoi canllawiau penodol a chynhwysfawr ar asesiadau o anghenion y boblogaeth sydd, gyda’i gilydd, yn ceisio hyrwyddo hawliau pobl.

- **Safon 2:** Mae **sicrhau digon o sgiliau, adnoddau a chapasiti** yn canolbwyntio ar wasanaethau cymorth ataliol. Mae atal yn agwedd ofal ar gynnal hawliau plant. Mae lleihau’r angen am ofal a chymorth yn y dyfodol yn cyfrannu’n uniongyrchol at egwyddorion cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

- **Safon 4:** Mae **dewis gwasanaethau’n** ymwneud â phenderfyniadau am ddarparu gwasanaethau’n fewnol neu drwy ddarparwyr allanol. Mae’n adeiladu ar safon 3 fel pe bai partneriaid yn gallu nodi angen yna maent, o dan safon 4, mewn gwell sefyllfa i gaffael y gwasanaeth iawn sy’n cynnwys cefnogi defnyddio darpariaeth trydydd sector y dangoswyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol gan ei fod yn cysylltu’n uniongyrchol â’r egwyddor ‘yr hyn sy’n bwysig’ ac yn gallu cynnig gwasanaethau mwy hyblyg ac amrywiol sydd, yn ei dro, yn golygu y gellir diwallu anghenion pobl. Mae diwallu anghenion pobl (a thrwy hynny eu hawliau) a chyflawni’r hyn sy’n bwysig yn dibynnu ar fod gan bartneriaid amrywiaeth o wasanaethau i’w defnyddio ac mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd y trydydd sector ac yn enwedig ei fanteision penodol. Mae hyn yn tueddu i weithio’n dda mewn meysydd atal ac ymyrryd yn gynnar a fydd, os gwireddir y nodau a fwriedir, yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar hawliau plant.

- **Safon 5:** Mae **Mesur Gwerth** yn golygu bod yn rhaid i bartneriaid statudol fesur ‘gwerth’ yn gyson ar sail ansawdd a phrofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau yn ogystal ag “ymarfer hawliau”. Bwriad y safon hon yw bod gan bartneriaid statudol ddyletswydd statudol (ynghyd â’u dyletswyddau presennol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau allweddol arall) i ystyried sut mae hawliau pobl yn cael eu gwireddu, yn enwedig yng nghyd-destun comisiynu.

- **Safon 10:** Mae **cydraddoldebau a hawliau dynol** yn golygu bod yn rhaid i bartneriaid statudol fynd ati’n rhagweithiol i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a

hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol. Mae'r safon hon yn golygu ei bod yn rhaid i bartneriaid statudol ystyried CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[5](UNCRPD) wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Bwriad hyn yw cryfhau'r broses o roi CCUHP ac UNCRPD ar waith yn neddfwriaeth Cymru drwy atgyfnerthu ac adeiladu ar y ddyletswydd gyffredinol yn y Ddeddf i roi sylw i CCUHP. Ar ben hynny mae safon 10 yn mynnu bod partneriaid statudol yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael sydd â'r bwriad o helpu i brofi bod yr holl ddyletswyddau cydraddoldeb perthnasol yn cael eu cyflawni a rhoi'r dystiolaeth a'r data sydd eu hangen i wneud y newidiadau angenrheidiol i arferion comisiynu lle ceir bylchau neu feysydd i'w gwella. Ar ben hynny mae safon 10 wedi cael ei diwygio nawr i ymateb i sylwadau rhanddeiliaid allweddol i'r ymgynghoriad ac mae bellach yn cynnwys gofyniad i bartneriaid statudol roi sylw i'r canlynol:

- Disgwylir y bydd 'Y FFORDD GYWIR – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru' yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyrwyddo a gwireddu hawliau plant ac ystyried yr wybodaeth fanwl mae'n ei rhoi o ran ffyrdd ymarferol a gweithredol o wreiddio a defnyddio hawliau plant wrth ddarparu gofal a chymorth; a'r
- Siarter Rhianta Corfforaethol[6] sydd i fod i gefnogi ymhellach sut bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gyflawni eu llawn botensial.

Yn olaf, mae safon 10 yn mynnu bod partneriaid statudol yn dod o hyd i ffyrdd i ymestyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldebau a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaeth. Mae hon yn ffordd bwysig i'r fframwaith helpu i wthio'r gwaith o wreiddio a gwireddu hawliau plant ar draws y system gofal a chymorth gyfan. Bydd y Pecyn Cymorth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni hyn drwy ddarparu cymalau contract cydraddoldebau sydd wedi cael eu datblygu y dylai comisiynwyr eu defnyddio yn eu contractau gyda darparwyr.

Mae gweithredu'r Cod yn effeithiol yn allweddol i sicrhau ei fod yn cael effaith ystyrlon ar hawliau a chydraddoldebau. Felly, bydd y pecyn cymorth a fydd yn adnodd ar-lein ar gyfer comisiynwyr a sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddi yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o helpu i sicrhau bod comisiynwyr yn gallu gwreiddio hawliau pobl yn effeithiol yn eu harferion comisiynu a fydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gadw at eu dyletswyddau yn CCUHP i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni hawliau dynol. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau, er enghraifft dogfennau canllaw, enghreifftiau o arferion da neu nodedig a chymalau contract templed y bydd llawer ohonynt yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo a gwireddu hawliau plant a chefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Er y bydd comisiynwyr, o dan y ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldebau a hawliau dynol, eisoes yn ymgorffori ffyrdd o gefnogi hawliau pobl yn eu harferion, bydd y

[5] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities
[6] https://www.llyw.cymru/siarter-rhianta-corfforaethol

darpariaethau yn y Cod a'r canllawiau yn y pecyn cymorth yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau hyn drwy roi cyd-destun i'r hyn mae'n rhaid ei wneud yn benodol yng nghyswllt comisiynu gofal a chymorth.

Bydd effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion ac yn cael effaith gadarnhaol ar y rheini sy'n derbyn gofal a chymorth. I helpu i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen bob 2 flynedd.

**Sut bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb (Gweler y dyletswyddau cyffredinol)?**

**Cod Ymarfer Rhan 2**

Bydd elfennau canlynol y Cod Rhan 2 diwygiedig yn cael effaith gadarnhaol benodol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig:

<u>Pennod 2 – asesiadau o anghenion y boblogaeth</u>

Wrth i awdurdodau lleol baratoi eu hadroddiad asesiad o anghenion y boblogaeth, rhaid iddynt gynnwys anghenion iechyd a gofal a chymorth y grwpiau poblogaeth blaenoriaethol canlynol:

- babanod, plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl anabl
- pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor
- pobl sydd ag anabledd dysgu
- pobl niwrowahanol
- pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys y rheini sy'n byw gyda dementia
- pobl sydd ag amhariad ar y synhwyrau
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth
- pobl sydd â phrofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- pobl sy'n profi digartrefedd.

Mae'r Cod Rhan 2 diwygiedig yn diweddaru'r rhestr gyfredol o themâu craidd, i bwysleisio bod y rhain yn grwpiau poblogaeth blaenoriaethol, ac i roi pwyslais cliriach ar bobl yn hytrach nag ar gyflyrau, yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae babanod, y rheini sy'n byw gyda dementia, a phobl sy'n profi digartrefedd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr.

Yn ogystal â nodi'r angen am ofal a chymorth, rhaid i'r adroddiadau hyn hefyd gynnwys asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau y bydd angen eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys unrhyw fylchau. Mae'r rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol hefyd wedi'i chynnwys yn y canllawiau ar gynlluniau ardal ar y cyd, a fydd hefyd yn cael eu diweddaru cyn y rownd nesaf o gynlluniau a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2028.

Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ymgysylltu â dinasyddion wrth iddynt gynnal eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth. Mae'r Cod Rhan 2 yn gosod gofyniad penodol i ystyried barn y rheini nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml (mae hyn yn disodli'r cyfeiriad blaenorol at y rheini sy'n anodd eu cyrraedd neu sydd ar y cyrion), gan gynnwys grwpiau lleiafrifol fel pobl ddigartref a theithwyr. Dylai'r ymgysylltu hefyd adlewyrchu amrywiaeth y bobl yn y gymuned, gan gynnwys gwahanol lefelau o anghenion gofal a

chymorth. Dylid rhoi trefniadau arbennig ar waith hefyd i ymgysylltu â phlant yn uniongyrchol ac yn llwyddiannus.

Cadwyd y gofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys asesiad yn ôl nodwedd warchodedig) fel rhan o'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth.

Pennod 5 – ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu
Mae'r gofynion a'r canllawiau ar ymgysylltu a chydgynhyrchu wedi cael eu symud i bennod benodol i roi mwy o amlygrwydd iddynt yn y Cod Rhan 2 diwygiedig. Maent yn codi o'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol, yn adran 16(1)(c) o Ddeddf 2014, i hyrwyddo 'personau y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'w darparu ar eu cyfer' wrth ddylunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno. Mae'r personau hyn yn cynnwys llawer o bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig – er enghraifft, pobl anabl, pobl hŷn, a phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth neu sydd â phrofiad o ofal. Un o nodau allweddol y bennod newydd yw galluogi ystod ehangach o bobl i gydgynhyrchu gwasanaethau ar bob lefel, nid yn unig o ran eu pecynnau gofal unigol – hy ar bob cam o'r cylch comisiynu, o gynllunio a dylunio, hyd at ddarparu, monitro a gwerthuso.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu dull o gydgynhyrchu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cefnogi cynhwysiant. Mae'r Cod Rhan 2 yn pwysleisio bod cydgynhyrchu yn golygu gweld pawb fel asedau a phartneriaid cyfartal wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, a sicrhau bod pobl o bob oed, cefndir a gallu yn cael eu cynnwys a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae'n ailadrodd y bydd gwahanol ddulliau'n briodol i wahanol grwpiau, ac y bydd angen dod o hyd i ffyrdd arloesol a chreadigol i ddod â lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml i'r bwrdd.

Cafodd y negeseuon ar ymgysylltu a chydgynhyrchu yn y Cod eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2023. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys lleisiau dinasyddion a'r trydydd sector. Bu'r grŵp hwn hefyd yn gweithio ar adolygiad sylweddol o Ganllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r canllawiau hynny wedi cael eu cryfhau i gynnwys yr un negeseuon allweddol am ymgysylltu a chydgynhyrchu. (Bydd canllawiau Rhan 9 yn dod i rym erbyn diwedd 2024, a bydd ganddynt eu Hasesiad Effaith Integredig eu hunain.)

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno'n gryf â'r gofynion am gydgynhyrchu, ond roedd teimlad cryf mai'r hyn sy'n bwysig oedd sut roedd hyn yn cael ei roi ar waith ac a oedd gan awdurdodau lleol (a'u partneriaid, gan gynnwys byrddau iechyd) ddigon o adnoddau ar gyfer hyn. Canfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen dystiolaeth o arferion da ym mhob rhanbarth, ac ystyrir ymhellach y ffordd orau o hyrwyddo a rhannu hyn yn genedlaethol.

**Y Fframwaith Cenedlaethol**
Mae Cod y Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys nifer o egwyddorion a safonau y mae'n rhaid i gomisiynwyr eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r egwyddorion a'r safonau yn cynnwys y gofynion penodol canlynol yng nghyswllt materion cydraddoldebau:

- drwy'r broses gomisiynu mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol a bydd angen i i

bartneriaid statudol sicrhau eu bod yn diwallu gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rheoliad 18 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011[7].

- sicrhau wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd eu bod wedi rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[8] (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[9] (UNCRPD) ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn[10]
- a rhoi sylw i Ddull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal â'r Siarter Rhianta Corfforaethol er mwyn i blant a phobl ifanc gyflawni eu potensial a rhaid sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu.
- Sicrhau, drwy eu trefniadau contractiol gyda darparwyr, bod darparwyr gwasanaethau yn gweithio'n unol â dyletswyddau statudol y comisiynwyr sy'n ymwneud â chydraddoldebau a hawliau dynol.
- Datblygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldebau mewn perthynas ag unrhyw waith comisiynu a chaffael maent yn ei wneud.

**Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028**
Daeth ymgynghoriad ar ***Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig*** ("y Cynllun") i ben ym mis Chwefror 2024. Mae cyhoeddi'r Cynllun yn ddyletswydd gyfreithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac mae'n gyfle i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatrys rhai o'r materion systemig sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n gallu cael effaith niweidiol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r Cynllun yn cynnwys tair "Egwyddor yr Ymagwedd" eang a fydd yn berthnasol i set o 7 **amcan cydraddoldeb cenedlaethol** ar gyfer y 4 blynedd nesaf a chamau gweithredu ategol i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau yn y cynlluniau gweithredu a'r polisïau penodol ar draws Llywodraeth Cymru a fydd yn ein helpu i weithio i gyflawni ein **nod tymor hwy o greu Cymru sy'n seiliedig ar degwch, cynhwysiant ac atal gwahaniaethu** a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol. Dyma egwyddorion yr ymagwedd:

1. Prif ffrydio cydraddoldeb wrth ddylunio a darparu ymyriadau a datblygu polisïau Llywodraeth Cymru
2. Sicrhau dull croestoriadol o ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith
3. Ymdrin â'r bwlch rhwng bwriad a chyflawni

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig bod ein Nod Hirdymor a'n Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn cael eu fframio o dan y 7 maes thematig canlynol gan adlewyrchu 6 maes y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **Yw Cymru yn Decach? (2018)**: addysg, iechyd, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch, gwaith a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus gan ychwanegu'r Amgylchedd. Yn ddelfrydol, dylid cysylltu'r

---

[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/regulation/18/made/welsh
[8] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child
[9] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities
[10] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/united-nations-principles-older-persons

Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol â phob un o'r meysydd thematig hyn, ond o leiaf un.

Mae dogfen ymgynghori'r Cynllun yn cyfeirio at y gofyniad i Lywodraeth Cymru gynnal Asesiad ystyrlon o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n rhan o'n nod o wreiddio prif ffrydio cydraddoldeb ar draws y sefydliad. Nod hyn yw sicrhau bod ein polisïau a'n hymyriadau'n diwallu anghenion amrywiol pobl ar hyd a lled Cymru, yn chwalu rhwystrau ac yn cefnogi pobl i ffynnu ac i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r ddogfen yn nodi y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb "ddangos i randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau sut mae'r ymyriad wedi'i adlewyrchu'n glir mewn prosesau a chamau gweithredu, a gwella mynediad, cyfranogiad, cynhwysiant ac ansawdd bywyd i bobl a chymunedau ledled Cymru". Ar ben hynny mae'r Cynllun yn cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau bod strategaethau Llywodraeth Cymru yn cyflawni "camau gweithredu ag effeithiau ystyrlon i bobl Cymru" ac i wneud hyn mae angen i brosesau dylunio polisïau fynd i'r afael â'r "blwch gweithredu" hy "y bwlch rhwng yr hyn y mae strategaeth neu gynllun yn bwriadu ei gyflawni a phrofiadau gwirioneddol y rheini sy'n aros i effaith camau gweithredu eu cyrraedd".

**Cysylltiadau'r Fframwaith Cenedlaethol â'r Cynllun**

O ran y Fframwaith a'r sector gofal a chymorth, y bwlch gweithredu sydd rhwng nodau'r Ddeddf a phrofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau gofal a chymorth ar hyd a lled Cymru oedd yn sail sylfaenol i'r achos dros newid a nodir yn y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

Mae'r "bwlch gweithredu" ar lefel y Ddeddf, sef y sail a'r sbardun polisi sylfaenol i ddarparu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol, fel y Codau Ymarfer eraill a wnaed o dan y Ddeddf, yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwnnw a ganfuwyd. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd bylchau gweithredu posibl yn y Codau eu hunain hefyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi ymgynghori ar y Cod ac wedi gwneud y diwygiadau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni i leihau'r bwlch a manteisio i'r eithaf ar yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd a nodau'r Cod.

Byddwn wedyn yn profi ac yn mesur hyn drwy gydol y cyfnod gweithredu a monitro ac yn defnyddio'r adolygiad 2 flynedd o'r Cod i ddiwygio ac i addasu'r Fframwaith yn ôl yr angen. Ar ben hynny, bydd y pecyn cymorth yn golygu bod modd rhoi cymorth ychwanegol ar waith a fydd wedi'i dargedu ar sail byw i helpu comisiynwyr i gyflawni'r Cod, lleihau'r bwlch a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Roedd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol yn dangos yn glir mai gweithredu fyddai un o'r heriau allweddol. Mae'r prif heriau a godwyd yn cynnwys y gweithlu, cyllid ac adnoddau, sgiliau comisiynwyr, capasiti a phrofiadau ac integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'r asesiad hwn wedi dod i'r casgliad bod y rhwystrau hynny'n bodoli y tu allan i gwmpas y Fframwaith Cenedlaethol a'u bod yn rhan o'r rhaglenni a'r polisïau ehangach a chyfunol ar ofal a chymorth sy'n cael eu datblygu, eu gweithredu a'u hadolygu a'u gwerthuso ar hyn o bryd. Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn meysydd lle'r oedd teimlad y gallai ychwanegiadau neu ddiwygiadau wella effeithiolrwydd y darpariaethau. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad y byddai llawer o'r materion posibl yn berthnasol i'r gweithredu ac i'r perwyl hwn rhwng cymeradwyo'r Cod a'i ddyddiad dod i rym ym mis Medi 2024, bydd rhaglen o ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn cael ei rhoi ar waith. Ar ôl hynny bydd cefnogaeth barhaus ar gael i gefnogi comisiynwyr fel rhan o swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio opsiynau i gryfhau ac i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol gan ystyried y fframwaith cyfreithiol a pholisi yng Nghymru. Roedd yr adroddiad dilynol 'Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[11]' yn tynnu sylw at y berthynas gref rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol ac angen i lunio cysylltiadau ac amcanion clir ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb. Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd Llywodraeth Cymru y 5 prif faes gweithredu canlynol gan Lywodraeth Cymru:

1. gwaith paratoi deddfwriaethol;
2. canllawiau;
3. adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
4. ymgorffori hawliau dynol mewn asesiadau effaith ;
5. a chodi ymwybyddiaeth o hawliau dynol.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cefnogi'r dull hwn o weithredu gyda'i ddarpariaethau deddfwriaethol yn cynnwys safon benodol (rhif 10) ar gydraddoldebau a hawliau dynol. Drwy hyn a thrwy arweinyddiaeth y Swyddfa Genedlaethol, bydd cydraddoldebau a hawliau dynol yn ganolog i ddarparu gofal a chymorth. Gellir gweld bod darpariaethau'r Fframwaith sy'n ymwneud â chydraddoldebau a hawliau dynol fel yr ymdrinnir â nhw yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn y sesiwn hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth a ddarperir i gomisiynwyr.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol a'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol, yn gwneud gwaith paratoi i gyflawni ein hymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod yng nghyfraith Cymru. Gellir gweld bod y Fframwaith Cenedlaethol yn cyfrannu at hyn ac yn ei gefnogi gyda'i ddarpariaethau sy'n ymwneud â phartneriaid statudol yn gorfod ystyried UNCRPD ym mhob agwedd ar gomisiynu sy'n rhan gynhenid o'r Ddeddf ond sydd wedi'i nodi'n benodol yng nghyd-destun comisiynu yn y Cod.

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cefnogi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2 a 3 fel y nodir yn y tabl isod:

| Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol | Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol |
|---|---|
| **Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 2:**<br>Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus.<br>Er mwyn helpu i gyflawni hyn, byddwn yn ceisio:<br>• adnabod a defnyddio pob ysgogiad posibl i ddiogelu, i gryfhau ac i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru | Drwy ei ddarpariaethau i hyrwyddo ac i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a gwreiddio hawliau a chydraddoldebau yn ei egwyddorion a'i safonau. |

[11] https://www.llyw.cymru/cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru

| | |
|---|---|
| • gweithio i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gwybod lle i ddod o hyd i gyngor a chymorth croestoriadol priodol<br>• gweithio i sicrhau bod ystyriaethau hawliau dynol yn cael eu gwreiddio ym mhob polisi a chynllun strategol ar draws Llywodraeth Cymru a hybu dull gweithredu tebyg ar draws ein partneriaid yn y sector cyhoeddus | |
| **Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 3:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, byddwn yn ceisio:<br>• gweithio i sicrhau bod profiad bywyd, hawliau, dymuniadau a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau wrth galon holl waith dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru<br>• mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar fesur effeithiau a chanlyniadau'r gwasanaethau a gaiff pobl Cymru<br>• mynd i'r afael â'r bwlch gweithredu polisi drwy wella'r ddarpariaeth a chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a chael budd ohonynt. Bydd hyn yn cynnwys holl wasanaethau cyhoeddus Cymru<br>• gweithio i sicrhau yr eir i'r afael ag agweddau gwahaniaethol yn y system gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg a gweithleoedd | Fel yn y Ddeddf – mae profiadau bywyd, hawliau, dymuniadau a dyheadau pobl mewn angen neu sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn ganolog i bob agwedd ar gomisiynu a drwyddynt oll. Mae'r Cod yn cynnwys darpariaethau (ee Safon 5: Mesur Gwerth) sy'n golygu bod yn rhaid mesur effaith gan gynnwys gwerth ar sail ansawdd a phrofiadau a chanlyniadau pobl gan gynnwys ar ymarfer hawliau. Fel y nodir uchod, nod y Cod yw helpu i gau'r bwlch gweithredu yn nodau'r Ddeddf a phrofiadau pobl o wasanaethau gofal a chymorth a'u canlyniadau, fel y nodir yn y Papur Gwyn. |

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth galon y broses o lunio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae hyn fwyaf amlwg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cynnwys y nod ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r nod o sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, mynediad teg at wasanaethau, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a cheisio canlyniadau tecach i ddinasyddion, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol, wedi'i wreiddio yn nyluniad y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cyd-fynd yn llwyr â nodau cenedlaethol cyffredinol Llywodraeth Cymru i gefnogi grwpiau ac unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n parhau i fod yn y perygl mwyaf o ganlyniadau bywyd anghyfartal o ganlyniad i'r gwahaniaethu a'r driniaeth annheg y gallant ei chael.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi dyletswydd i ddatblygu'n gynaliadwy gyda'r bwriad o wella llesiant economaidd, cymdeithasol,

amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru yn wlad lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'n amhosibl gwahanu'r nodau llesiant hyn oddi wrth ei gilydd, ac maent yn egluro beth mae llesiant Cymru yn ei olygu. Drwy ei nodau i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion pobl ac yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau llesiant, mae'r Fframwaith yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant ond yn benodol:

- **Cymru iachach** drwy integreiddio'n well â gwasanaethau iechyd a thrwy gefnogi'r Ddeddf er mwyn gallu cyflawni canlyniadau llesiant pobl;
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** drwy sicrhau cysondeb wrth gomisiynu gofal a chymorth a thrwy atgyfnerthu egwyddorion y Ddeddf a hawliau, bydd y Fframwaith (drwy gefnogi nodau'r Ddeddf) yn helpu i ddatblygu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hamgylchiadau, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig os oes ganddynt rai;
- **Cymru o gymunedau cydlynus** drwy helpu i gefnogi comisiynwyr i ddeall ac i ddefnyddio asedau cymunedol, i helpu gwasanaethau gofal a chymorth i ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau manteision dwyochrog ac i gefnogi cydnerthedd a dyfeisgarwch cymunedol, i alluogi pobl i fyw'n dda, yn nes at eu cartref drwy atal, dewis, llesiant, ac annibyniaeth a (drwy safon 2) sicrhau digon o sgiliau, adnoddau a chapasiti i helpu partneriaid statudol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i feithrin cydnerthedd cymunedol, gan fuddsoddi mewn grwpiau, gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol;
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** gyda'i darpariaethau'n ymwneud â chefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg; a

Gellir gweld bod yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'i phum ffordd o weithio wedi'u gwreiddio'n glir yn y Fframwaith ei hun, yn y broses o'i ddatblygu ac yn y cynllun i'w weithredu a'i fonitro, gan gynnwys drwy **Safon 1: Gwreiddio gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf yn yr holl weithgareddau comisiynu** sy'n golygu bod angen i bartneriaid statudol ddangos gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy gyflawni canlyniadau llesiant; cydgynhyrchu gyda llais a rheolaeth yr unigolyn yn ganolog i gomisiynu ar gyfer canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y 'person' neu'r 'claf'; cydweithio; ymyrryd yn gynnar ac atal; a chynllunio ar gyfer yr hirdymor, ychwanegu gwerth (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) yn ogystal â thrwy Egwyddor 6: Cynllunio ar gyfer yr angen presennol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio'n gofyn am ragolygon, a dylai'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 o'r Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymiadau carbon).

### 1.1. Sut ydych chi/y byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu o'r ymchwil i nodi effeithiau?

**Y Fframwaith Cenedlaethol / Swyddfa Genedlaethol**

Rydym wedi defnyddio cyfoeth o dystiolaeth, gan gynnwys o ymgynghoriad 2023, i nodi effeithiau ac i siapio ac i lywio datblygiad y Fframwaith Cenedlaethol a swyddogaeth, bwriad a nodau arfaethedig y Swyddfa Genedlaethol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys:

a) Dadansoddiad o'r farchnad gofal cymdeithasol a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a wnaed i gyfrannu at y Papur Gŵyl Ailgydbwyso Gofal a Chymorth[12].
b) Yr ymgynghoriad[13] ar y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.
c) Gwerthusiad[14] o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[15] ("y Ddeddf").
d) Aelodau Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth eang o amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys mewn perthynas â hawliau plant: Gofal Cymdeithasol Cymru; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Awdurdodau Lleol; Cymdeithas Cartrefi Plant Annibynnol; Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant; Byrddau Iechyd; Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol; Fforwm Darparwyr Cenedlaethol; y Rhwydwaith Maethu; yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU); Arolygiaeth Gofal Cymru; CWMPAS; y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Fforwm Gofal Cymru. Roedd disgwyl i'r aelodau ystyried dibyniaethau critigol, ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio wrth ddarparu cyngor ac argymhellion terfynol ar y Fframwaith Cenedlaethol. Dyma oedd y dibyniaethau critigol a nodwyd:
    - Dileu elw preifat o fwrdd rhaglen gofal plant sy'n derbyn gofal;
    - Bwrdd Goruchwylio Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Blant;
    - Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol;
    - Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru);
    - Bil Caffael Cyhoeddus Llywodraeth y DU;
    - Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol; ac
    - Adolygiadau polisi Gofal Nyrsio a Gofal Iechyd Parhaus a Ariennir (gan gynnwys y berthynas â thaliadau uniongyrchol).
    - Ymgysylltu â swyddogion polisi sy'n arwain ar y Rhaglen tynnu elw o ofal plant.
e) aelodau Grŵp Llywio'r Swyddfa Genedlaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth eang o amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys:
    - Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
    - Dirprwy Gyfarwyddwr Dyfodol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
    - Arweinwyr polisi'r Swyddfa Genedlaethol, Llywodraeth Cymru
    - Rhaglen Weithredol y GIG
    - Cyfarwyddwr Cynllunio, Llywodraeth Cymru
    - Cyfarwyddwr Trawsnewid (Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant ac Oedolion), Llywodraeth Cymru
    - Arolygiaeth Gofal Cymru
    - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
    - CLlLC
    - Conffederasiwn GIG Cymru
    - Gofal Cymdeithasol Cymru

[12] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgynghori_0.pdf
[13] https://www.llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth
[14] https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014
[15] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4

- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (Bwrdd Gweithredol)
- Fforwm Gofal Cymru
- Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru

f) Adroddiad arolwg comisiynu: Roedd Uned Fusnes Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi gwahodd pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i lenwi arolwg ar eu trefniadau comisiynu a chaffael. Roedd yr arolwg yn ceisio casglu gwybodaeth gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, enghreifftiau go iawn o'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd; beth ellid ei ehangu, ei ddyblygu neu ei leihau a rhwystrau i atal comisiynu da (gan gynnwys cynllunio, caffael a rheoli contractau). Roedd hefyd yn ceisio canfod materion neu broblemau sylweddol sy'n ymwneud â chomisiynu gofal a allai ddod yn bwysig dros y blynyddoedd nesaf a'r prosesau caffael sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Yng nghyswllt hawliau plant, cafwyd ymatebion gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant.

g) Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru[16] - Adroddiad y Grŵp Arbenigol

h) Roedd digwyddiadau ymgynghori Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth 2023 yn cynnwys digwyddiad ymgysylltu ar-lein ar 28 Mehefin a digwyddiad wyneb yn wyneb ar 11 Gorffennaf. Roedd y naill ddigwyddiad a'r llall yn cynnwys amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o sefydliadau llywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Drwy gydol yr ymgynghoriad, bu swyddogion hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda Cartrefi Cymunedol Cymru a fynychwyd gan randdeiliaid tai allweddol ac Age Cymru a fynychwyd gan aelodau o'u fforwm ymgynghorol a grwpiau cenedlaethol pobl hŷn.

i) Ymatebion i ymgynghoriad Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth 2023[17]. Gyda'i gilydd cafwyd 96 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Daeth y grŵp mwyaf o'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol. Cafwyd ymatebion gan sefydliadau llywodraeth leol, cyrff y GIG, pob un o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, darparwyr gofal cymdeithasol, cyrff cynrychioliadol sy'n cynrychioli darparwyr, cyrff cynrychioli proffesiynol eraill, comisiynwyr statudol, cyrff statudol annibynnol, undebau llafur, unigolion a sefydliadau academaidd. Roedd ymatebion manwl a chynhwysfawr gan ddarparwyr gofal cymdeithasol, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Plant Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru ac NSPCC yn arbennig o ddefnyddiol o ran ystyried effaith y Fframwaith Cenedlaethol ar wasanaethau gofal a chymorth plant a hawliau plant.

j) Canllawiau Comisiynydd Plant Cymru:
   - Y FFORDD GYWIR - Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru – Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[18]**; ac**
   - Y FFORDD GYWIR - Dull Gweithredu Seiliedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Fframwaith egwyddorol ac ymarferol o weithio gyda phlant, wedi'i

[16] https://www.llyw.cymru/sefydlu-gwasanaeth-gofal-chymorth-cenedlaethol
[17] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth
[18] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/202402-Childrens-Commissioner-for-Wales-Right-Way-Welsh.pdf

seilio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, yw Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant[19]

Er mwyn llawn ystyried effaith y Fframwaith Cenedlaethol ar gydraddoldebau a hawliau dynol, aethom ati i sefydlu is-grŵp o Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol i ystyried goblygiadau polisi penodol y Fframwaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol a helpodd yn rhagweithiol i ddatblygu'r polisi Fframwaith Cenedlaethol. Ar ben hynny, roedd cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhan o grŵp ysgrifennu bach a helpodd i ddrafftio'r Cod yr ymgynghorwyd arno yn 2023. Roedd eu cyfraniadau uniongyrchol a'u drafftio wedi helpu i sicrhau y bydd y Fframwaith yn hyrwyddo cydraddoldebau a hawliau dynol.

**Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut byddwch chi'n lliniaru'r rhain?**

Ar sail y dystiolaeth hon, nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rheini sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel gan fod y Fframwaith Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer Rhan 2 ill dau yn adeiladu ar weledigaeth ac uchelgais Deddf 2014 – hy darparu gwasanaethau gofal a chymorth i'r rheini sydd angen gwella llesiant.

**Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?**

Ni chafodd unrhyw rwystrau penodol eu codi yn ymgynghoriad 2023 mewn perthynas â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig oedran – cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o ddogfen ymgynghori Ailgydbwyso Gofal a Chymorth 2023 er mwyn gallu cael amrywiaeth eang o ymatebion i'r ymgynghoriad. Hefyd, cyflwynodd nifer o sefydliadau, gan gynnwys Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, gwasanaethau plant awdurdodau lleol, NSPCC a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ymateb i ymgynghoriad 2023 a oedd yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau, syniadau a theimladau'r plant a'r bobl ifanc maent yn eu hyrwyddo ac yn eu cynrychioli yn cael eu cynnwys a'u hystyried yn yr ymgynghoriad. Cafodd yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad eu hystyried ac roeddent yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddrafftio fersiwn derfynol y Fframwaith Cenedlaethol ac yn ein hystyriaethau ar ei effaith gan gynnwys ar gydraddoldebau a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Sut byddwch chi'n gwybod a yw eich darn o waith yn llwyddiant?**

**Y Fframwaith Cenedlaethol**

Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth rôl allweddol yn y gwaith o weithredu a monitro a gwerthuso'r Fframwaith Cenedlaethol yn barhaus yn ogystal â bod yn gyfrifol am sicrhau bod y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei adolygu bob 2 flynedd. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn dal i ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i

---

[19] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/04/RightWaySocialCare-Wel.pdf

sicrhau bod y Fframwaith Cenedlaethol yn effeithiol o ran sicrhau bod arferion comisiynu yn hyrwyddo ac yn gwella materion cydraddoldebau a hawliau dynol.

Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol rôl i ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol a phobl sy'n derbyn gwasanaethau. Bydd hyn yn golygu bod pobl sy'n derbyn gwasanaethau yn gallu cyfrannu at waith y Swyddfa Genedlaethol. Fel rhan o'i swyddogaeth, bydd gan y Swyddfa Genedlaethol hefyd rôl i gefnogi comisiynwyr i weithio'n unol â'r egwyddorion a'r safonau ac i ddiweddaru'r pecyn cymorth cenedlaethol o adnoddau.

Mae gwahanol ffynonellau gwybodaeth a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol a diwygiadau i'r Cod Rhan 2 yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol[20]. Yn unol ag arfer da sefydledig ar is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o sut mae'r Cod Rhan 2 diwygiedig yn cael ei roi ar waith ymhen tair blynedd (erbyn Mehefin 2027).

Bydd adolygu effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys asesiad parhaus o brofi a oedd y casgliadau a wnaed ar yr effaith ddisgwyliedig yn gywir. Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r asesiadau effaith perthnasol eraill yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â'r gwaith monitro hwn a bydd fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi o leiaf bob dwy flynedd gan gyd-daro â phan fydd y Cod yn cael ei ystyried ar gyfer diwygiadau.

**Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?**

Adeg gosod y Cod, mae mecanweithiau gweithredu, monitro a gwerthuso a swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol yn dal i gael eu datblygu, ond bydd y mecanweithiau adrodd a'r fframweithiau canlyniadau presennol yn ddefnyddiol i brofi effeithiau'r Fframwaith a mesur pa mor llwyddiannus ydyw o ran cyflawni ei nodau. Mae angen i adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol nawr gynnwys tystiolaeth o sut mae safonau ac egwyddorion y Fframwaith Cenedlaethol yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pobl sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol a gwella canlyniadau llesiant. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gydgynhyrchiol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar sut gall y Pecyn Cymorth gefnogi partneriaid statudol yn benodol i asesu ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau cydraddoldebau ac yn cynnal hawliau.

[20] https://senedd.cymru/media/zamdaugp/sub-ld16416-em-w.pdf

**Cofnod o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig**

Mae'r adran hon yn dangos effaith gadarnhaol neu negyddol ddisgwyliedig y Fframwaith Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer Rhan 2 ar rai o'r grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw gwella'r ffordd y gall comisiynu gyfrannu at y ffordd y gellir darparu gofal a chymorth yn unol â nodau ac egwyddorion y Ddeddf i wella canlyniadau llesiant pobl. Lle, felly, dylai'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig sydd ag angen gofal a chymorth sy'n deillio o'u nodweddion gwarchodedig neu sy'n gysylltiedig â nhw drwy helpu i wella'r ffordd mae gofal a chymorth yn cael eu comisiynu a helpu i gyflawni nodau'r Ddeddf ymhellach i ddiwallu anghenion llesiant pobl a'r canlyniadau mae arnynt eisiau eu cyflawni.

**Y Fframwaith Cenedlaethol**

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Dylai'r Fframwaith Cenedlaethol helpu i gael effaith gadarnhaol ar wasanaethau pobl o bob oed sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth drwy wella cysondeb y broses o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.<br><br>Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw gwella'r ffordd y gall comisiynu gyfrannu at y ffordd y gellir darparu gofal a chymorth yn unol â nodau ac egwyddorion y Ddeddf i wella canlyniadau llesiant pobl. Felly, dylai gwella'r comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn diwallu anghenion penodol gwahanol grwpiau oedran, fel plant, pobl ifanc a phobl hŷn.<br><br>Pobl hŷn:<br>Dylai'r Fframwaith gael effaith fanteisiol gadarnhaol ar | Tystiolaeth gan randdeiliaid bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwella at ganlyniadau llesiant gwell wrth ei rhoi ar waith yn effeithiol. Felly, mae disgwyl y dylai nodau'r Fframwaith i wella'r cysondeb a lleihau cymhlethdodau comisiynu gofal a chymorth helpu i alluogi cyflawni a gwireddu nodau'r Ddeddf ymhellach. | Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y Fframwaith o ran cyflawni ei nodau ac yn gweld sut mae'r newidiadau a ddaw yn sgil ei roi ar waith yn effeithio ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc a phobl hŷn. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Bobl hŷn drwy wella'r broses o gomisiynu cartrefi gofal, gofal cartref a gwasanaethau gofal a chymorth yn y gymuned.<br><br>Plant a phobl ifanc:<br>Mae disgwyl i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc; plant a phobl ifanc sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth; plant neu bobl ifanc sy'n ofalwyr; plant a phobl ifanc anabl; plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi; siaradwyr Cymraeg a phlant a phobl ifanc LHDTC+.  Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn gosod egwyddorion a safonau cenedlaethol a fydd yn sicrhau bod arferion comisiynu ar draws Cymru yn dod yn fwy cyson a thrwy fodloni'r egwyddorion a'r safonau a osodir bydd yn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y pen draw.  Dylai'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol a buddiol ar blant a phobl ifanc drwy wella'r broses o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu cartrefi gofal plant.<br><br>Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u datgan. | | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person pa un a ydynt yn anabl ai peidio.  Felly, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith | | Amherthnasol, gan fod yr effeithiau ar bobl anabl yn cael eu hystyried yn gadarnhaol os cânt eu gweithredu'n briodol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| anabledd[21] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o amhariadau yn anabl) | gadarnhaol ar bob person sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys pobl anabl. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person. Felly, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bob person sydd | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol.<br><br>ystyrir bod yr effeithiau yn gadarnhaol. |

[21] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad amhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys y rheini sy'n mynd drwy'r broses o ailbennu rhywedd neu sy'n bwriadu gwneud hynny. | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person. Felly, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bob person sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys menywod beichiog a menywod sydd ar gyfnod mamolaeth. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |
| Hil<br>(yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person ni waeth beth yw eu hil. Felly, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bob person sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth ni waeth beth yw eu hil a chan gynnwys pob lleiafrif ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Disgwylir y bydd nod cyffredinol y Fframwaith i wella canlyniadau llesiant pobl yn unol â'r hyn sy'n bwysig | | Amherthnasol, oherwydd ystyrir bod |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | drwy ystyried eu nodweddion, eu diwylliant a'u credoau, yn cael effaith gadarnhaol. | | yr effaith yn gadarnhaol. |
| Rhyw / Rhywedd | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person ni waeth beth yw eu rhyw/rhywedd. Felly, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bob person sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth ni waeth beth yw eu rhyw/rhywedd.<br><br>Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlunio gyda defnyddwyr gwasanaeth a ddylai gael effaith fanteisiol ar bob grŵp o ddinasyddion, gan gynnwys y gymuned LHDTC+. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae effaith gadarnhaol ddisgwyliedig y Fframwaith ar gysondeb comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol sy'n deillio o hynny ar ganlyniadau llesiant pobl yn golygu bod disgwyl i'r Fframwaith gael effaith gadarnhaol gan gynnwys ar bob person sydd angen neu sy'n derbyn gofal a chymorth ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlunio gyda defnyddwyr gwasanaeth a ddylai gael effaith fanteisiol ar bob grŵp o ddinasyddion, gan gynnwys y gymuned LHDTC+. | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effaith benodol gan fod darparu gofal a chymorth yn hawl deg i bob person ni waeth beth yw statws eu perthynas. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl, drwy gyfrannu at gysondeb comisiynu gofal a chymorth a'r effaith gadarnhaol arfaethedig ar ganlyniadau llesiant pobl, y byddai hyn yn cael effaith fanteisiol ar bob rhan o'u bywyd. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae'r effaith ar blant a phobl ifanc wedi cael ei hystyried yn Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i helpu i sicrhau bod y Fframwaith yn helpu i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo hawliau plant. | | |
| Aelwydydd incwm isel | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol ar aelwydydd incwm isel. | | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol. |

**Cod Ymarfer Rhan 2**

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Mae'r gofynion a'r canllawiau yn y Cod Rhan 2 diwygiedig yn berthnasol i bob unigolyn sydd angen gofal a chymorth, a phob gofalwr sydd angen cymorth, ar draws pob grŵp oedran yn y boblogaeth. I'r graddau y maent yn canfod angen ac yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu'r ystod a'r lefel briodol o ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, byddant yn cael effaith fuddiol a chadarnhaol ar bobl o bob oed.<br><br>Mae Pennod 1 o'r Cod Rhan 2 yn nodi'r dyletswyddau llesiant a chyffredinol yn Neddf 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gan gynnwys ystyr rhoi 'sylw dyladwy'). (Cyfeirir hefyd at Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a Chonfensiwn y Cenhedloedd | Rhaid i adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys asesiad o'r angen am ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol dros gyfnod o bum mlynedd, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mae Cod Rhan 2 yn cydnabod y bydd gan rai grwpiau poblogaeth anghenion penodol am ofal a chymorth (gan gynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar), ac felly rhaid eu trin fel grwpiau poblogaeth blaenoriaethol at ddibenion yr asesiad hwn. Mae'r rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol hefyd yn cael ei defnyddio wrth gynnal asesiadau o ddigonolrwydd gofal a chymorth a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio (sy'n sail i adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ranbarthol), ac wrth lunio'r cynlluniau ardal ar y cyd. | Amherthnasol, oherwydd ystyrir bod yr effaith yn fuddiol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym Mhennod 2 ar asesiadau o anghenion y boblogaeth, lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd baratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.)<br><br>Dylai cadw **pobl hŷn** ar y rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol y mae'n rhaid ystyried eu hanghenion iechyd, gofal a chymorth fel rhan o'r asesiad o anghenion y boblogaeth, gael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon y mae angen cymorth arnynt (neu a allai fod mewn angen yn y dyfodol).<br><br>Mae **babanod, plant a phobl ifanc** hefyd yn grŵp poblogaeth blaenoriaethol yn yr un ffordd. Mae babanod yn benodol wedi cael eu hychwanegu at y rhestr am y tro cyntaf, i gydnabod eu hanghenion penodol. | | |
| **Anabledd** (ystyriwch y model cymdeithasol o | Mae pobl anabl yn un o brif fuddiolwyr gofal a chymorth, ac adlewyrchir hyn yn llawn yn y Cod Rhan 2. | Mae Pennod 1 y Cod Rhan 2 yn cydnabod bod gofal a chymorth yn gallu cyfrannu at chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu unigolion wrth gyflawni eu canlyniadau llesiant personol, yn unol â'r model cymdeithasol o | Amherthnasol, gan fod yr effeithiau ar bobl anabl yn cael eu |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| anabledd[22] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o amhariadau yn anabl) | | anabledd. Hefyd, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt pobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, yn enwedig Erthygl 19. Cyfeirir hefyd at Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Fyw'n Annibynnol sy'n mynegi hawliau pobl anabl i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd.<br><br>Mae lleihau effaith yr amhariad a/neu gyflyrau cronig ar bobl anabl yn un o'r dibenion sy'n sail i ddarparu ystod o wasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar integredig, fel y nodir yn adran 15 o Ddeddf 2014 a Phennod 3 o'r Cod Rhan 2. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried yn briodol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar mewn ardal. | hystyried yn gadarnhaol os cânt eu gweithredu'n briodol. |

[22] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad amhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yw'r rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol y mae'n rhaid nodi eu hanghenion yn adroddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth (Pennod 2). O'r 10 grŵp, mae pump yn cynnwys grwpiau o bobl sy'n anabl neu a allai fod yn anabl:<br>• neu sydd â chyflyrau iechyd hirdymor<br>• pobl sydd ag anabledd dysgu<br>• pobl niwrowahanol<br>• pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys y rheini sy'n byw gyda dementia<br>• pobl sydd ag amhariad ar y synhwyrau.<br><br>Yn y Cod Rhan 2 diwygiedig, mae'r grwpiau poblogaeth hyn wedi cael eu haileirio i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd ac arferion gorau cyfredol. Cyfeirir yn benodol at bobl sy'n byw gyda dementia. | |
| **Ailbennu Rhywedd** (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Mae'r swyddogaethau cyffredinol yn Rhan 2 o'r Ddeddf yn berthnasol i bob unigolyn sydd angen gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, gyda phwyslais ar gyflawni canlyniadau llesiant personol. | Cafodd y Ddeddf ei dylunio ar sail model 'pobl', gan ganolbwyntio ar nodi anghenion unigolion a chanlyniadau llesiant personol, ac ar gefnogi'r unigolyn i gyflawni'r amcanion hynny. Dylai'r pwyslais hwn ar ganlyniadau ac anghenion llesiant unigolion gael effaith gadarnhaol ar bobl drawsryweddol a'r rheini sy'n trawsnewid. | Amherthnasol oherwydd ystyrir bod yr effeithiau'n gadarnhaol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | Nid yw pobl drawsryweddol na'r rheini sydd wrthi'n ailbennu rhywedd neu'n aros i wneud hynny wedi cael eu nodi fel grŵp poblogaeth blaenoriaethol. Mae'r niferoedd yn gymharol fach, ac mae anghenion gofal a chymorth (a chanlyniadau personol) yn debygol o amrywio'n ôl yr unigolyn. Bydd y dull o ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Ddeddf yn arbennig o bwysig yn yr amgylchiadau hyn. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dylai'r penderfyniad i gynnwys babanod yn benodol ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc ar y rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol y dylid nodi eu hanghenion yn adroddiad yr asesiad o'r boblogaeth gael effaith gadarnhaol ar ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol / ymyrryd yn gynnar ar gyfer menywod sy'n feichiog ac ar rieni plant sydd newydd eu geni neu blant ifanc iawn. | | Amherthnasol oherwydd ystyrir bod yr effeithiau'n gadarnhaol. |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, | Mae'r ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn ymysg y dyletswyddau cyffredinol sy'n deillio o adran 6(2)(c) o Ddeddf 2014, ac mae wedi'i chynnwys ym Mhennod 1 o'r Cod Rhan 2. Mae effaith y | Dylai hyrwyddo dulliau menter gymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector sydd wedi'u lleoli yn y cymunedau lleol maent yn eu gwasanaethu ac sy'n adlewyrchu'r cymunedau hynny gael effaith arbennig o gadarnhaol o ran dylunio a darparu gwasanaethau | Amherthnasol oherwydd ystyrir bod yr effeithiau'n gadarnhaol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | dyletswyddau cyffredinol ar bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol gwahanol yn debygol o fod yn gadarnhaol.<br><br>Mae Pennod 2 ar asesiadau o anghenion y boblogaeth yn gosod gofyniad penodol i ystyried barn y rheini nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol fel pobl ddigartref a theithwyr. Mae hefyd yn pwysleisio y dylai'r ymgysylltu adlewyrchu amrywiaeth y bobl yn y gymuned.<br><br>Dylai nod y Bennod 5 newydd ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu hefyd sicrhau bod mwy o leisiau'n cael eu clywed a bod pobl sydd â phrofiad o ofal o bob cymuned yn ymwneud â chydgynhyrchu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.<br><br>Mae'r adran a ailysgrifennwyd ar 'werth cymdeithasol' ym Mhennod 4 yn cynnwys trafodaeth ar sut dylai awdurdodau lleol fod yn ceisio | sy'n adlewyrchu proffil hil, diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau hynny. | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | buddsoddi mewn modelau gofal a chymorth sy'n darparu gwerth cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i ddarparu gofal cymdeithasol gwych. Mae nod clir y dylai pob darparwr, o bob sector, fod yn darparu gofal cymdeithasol gwych a gwerth ychwanegol. | | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Mae'r ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn ymysg y dyletswyddau cyffredinol sy'n deillio o adran 6(2)(c) o Ddeddf 2014, ac mae wedi'i chynnwys ym Mhennod 1 o'r Cod Rhan 2. | Dylai ffocws y Ddeddf ar adnabod a chefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol sicrhau bod credoau crefyddol neu gredoau eraill (ac anghenion ysbrydol / llesiant) unigolyn yn cael eu hystyried yn briodol pan ddarperir gofal a chymorth. | Amherthnasol, oherwydd ystyrir bod yr effaith yn gadarnhaol. |
| Rhyw / Rhywedd | Gallai'r penderfyniad i gynnwys babanod yn y rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol y mae'n rhaid nodi eu hanghenion yn yr adroddiadau asesiadau o anghenion y boblogaeth fod o fudd arbennig i fenywod sy'n feichiog neu sy'n magu plant ifanc iawn.<br><br>Mae pobl sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig | Mae'r rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol a nodir yn y Cod Rhan 2 hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn y canllawiau ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal ar y cyd, er mwyn i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fabwysiadu dull cyfannol. | Amherthnasol oherwydd ystyrir bod yr effeithiau'n gadarnhaol. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | a thrais rhywiol hefyd wedi'u cynnwys yn y rhestr o grwpiau poblogaeth blaenoriaethol. | | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Dylai'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar bob unigolyn sydd angen gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, gyda phwyslais ar eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol yn unol ag egwyddorion Deddf 2014. | Dylai gweithredu Pennod 5 newydd y Cod Rhan 2 alluogi amrywiaeth ehangach o leisiau i gael eu clywed, gan sicrhau bod y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o ofal a chymorth yn gallu helpu i siapio'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu. Mae hyn yn cynnwys y gymuned LHDTC+. | Amherthnasol oherwydd ystyrir bod yr effeithiau'n gadarnhaol. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau penodol, cadarnhaol na negyddol, ar briodas na phartneriaeth sifil. Dylai'r pwyslais ar gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant, a chefnogi'r rheini sy'n gofalu amdanynt, gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau ni waeth beth fo natur neu gyfansoddiad y rhwydweithiau cymorth neu deulu hynny. | | Amherthnasol. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae effeithiau'r Cod Ymarfer Rhan 2 diwygiedig ar fabanod, plant a phobl ifanc wedi cael eu hystyried mewn Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân, a fydd yn cael ei | | |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cod diwygiedig. | | |
| Aelwydydd incwm isel | Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol ar aelwydydd incwm isel mewn perthynas â'r Cod Rhan 2. | | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

Y Fframwaith Cenedlaethol

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau plant | Edrychwch ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Rhaglen Ailgydbwyso[23] | - | - |
| | Mae'r Cod yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i gefnogi a hyrwyddo hawliau dynol – felly credwn y bydd y Fframwaith cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys:<br>• I'r comisiynu fod yn seiliedig ar werthoedd craidd y Ddeddf: llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cydgynhyrchu ac aml-asiantaeth;<br>• I gomisiynu roi sylw dyladwy i ddyletswyddau sy'n ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn;<br>• Un egwyddor benodol ar gyfer comisiynu ar Werth yw "beth sy'n bwysig": Mae | Mae'r dystiolaeth a nodir yn 1.2 wedi dangos y bydd gweithredu yn golygu bod darpariaethau'r Codau'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol o ystyried eu bod yn cynnwys darpariaethau penodol ar gefnogi ac ar hyrwyddo hawliau dynol a'u bod yn cyd-fynd â nodau'r Ddeddf sydd, yn y pen draw, yn ymwneud â diwallu anghenion pobl a chynnal hawliau i fyw bywyd llawn. | Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol. |

[23] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwerth yn fwy na chost; mae'n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy'n sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cyhoeddus yn deillio o gyflawni'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldebau, hawliau dynol, egwyddorion gwaith teg, ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.<br>• Sy'n egluro mai un o nodau'r Fframwaith yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni hawliau dynol ac ategu deddfwriaeth a chanllawiau gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, CCUHP, UNCRPD, Deddf Hawliau Dynol 1998, Cymru sy'n Fwy Cyfartal - y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Canllawiau Statudol, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Anghydraddoldeb Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;<br>• safon benodol (Safon 5: Mesur Gwerth) sy'n golygu bod yn rhaid i bartneriaid statudol fesur 'gwerth' yn gyson ar sail ansawdd a phrofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau yn ogystal ag ymarfer hawliau; | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • safon benodol (Safon 10: Cydraddoldebau a hawliau dynol) sy'n golygu bod yn rhaid i bartneriaid statudol:<br>○ weithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol;<br>○ dangos sut maent yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rheoliad 18 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011;<br>○ sicrhau wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd eu bod yn ystyried CCUHP ac UNCRPD a'u bod yn ystyried 'Y FFORDD GYWIR – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Fframwaith egwyddorol ac ymarferol o weithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, yw Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant' yn ogystal â'r Siarter Rhianta Corfforaethol er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflawni eu potensial;<br>○ dod o hyd i ffyrdd i ymestyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldebau a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaeth; a | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ○ chynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael. | | |

Cod Rhan 2

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | Mae adran 7 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar unigolion sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ar ben hynny, mae'r Cod Ymarfer Rhan 2 yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. | | |

**Hawliau Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ynghyd â Chytundeb Gwahanu yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Ardal Masnach Rydd Ewropeaidd (EEA EFTA)[24] a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y bydd eu hawliau dinasyddion yn cael eu diogelu.

Mae'r Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn cael eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (EUWAA)[25]

Bydd gan unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion fwy neu lai yr un hawliau parhaus i weithio, astudio a chael mynediad at

[24] Mae'r Ardal yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.
[25] Adrannau 5 a 6 o EUWAA.

wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau, i'r graddau y mae'r hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud yr Undeb Ewropeaidd a’r Swistir.

Yn amodol ar rai eithriadau cyfyngedig[26], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswyl newydd (naill ai cyn setlo neu statws preswylydd sefydlog) drwy’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o’r fath i ben ar 30 Mehefin 2021.

**Ydych chi wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu’r Swistir y mae eu hawliau wedi’u diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion?**
Do, fodd bynnag, nid oes unrhyw effeithiau penodol wedi’u nodi ar ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd na’r Swistir y mae eu hawliau’n cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion, gan gynnwys mewn perthynas â **mynediad y Fframwaith Cenedlaethol at wasanaethau cyhoeddus, budd-daliadau a systemau nawdd cymdeithasol** gan gynnwys gofal iechyd a **thriniaeth gyfartal**.

**Os oes posibilrwydd y bydd unrhyw effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu’r Swistir, sut bydd unrhyw effeithiau o’r fath yn cael eu dileu neu eu rheoli os ystyrir bod rheoli’n briodol?**

Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol.

**A oes angen cyngor cyfreithiol?**

Amherthnasol, gan na nodwyd unrhyw effeithiau penodol.

[26] Ee lle mae gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth ddeuol Brydeinig a Gwyddelig) neu lle’r oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i’r DU neu aros yno)